# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Rhestr wirio Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)

Adran Gwaith a Phensiynau

## Cael eich sefydliad yn barod

- ☐ Mae'r pecyn cymorth PIP ar gyfer sefydliadau cymorth (gov.uk/dwp/pip-toolkit) yn cynnwys llawlyfr, canllawiau cyflym, enghreifftiau o'r llythyrau a ffurflenni, a fformatau eraill. Addaswch y rhain at eich canllawiau neu gyfathrebiadau eich hun
- ☐ Mae'r wybodaeth ar gyfer grwpiau penodol yn y pecyn cymorth yn cynnwys cyfathrebiadau a chanllawiau wedi'u teilwra y gallwch eu defnyddio gyda'ch pobl eich hun a helpu i gefnogi hawlwyr
- ☐ Gall Rheolwr Partner yr Adran Gwaith a Phensiynau cwrdd â'ch timau wyneb-yn-wyneb i siarad am y budd-dal newydd. Os nad ydych eisoes mewn cysylltiad â Rheolwr Partner yr Adran Gwaith a Phensiynau lleol, gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt yn gov.uk/government/publications/dwp-partnerships
- ☐ Mae pecyn cymorth diwygio cyfathrebiadau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn egluro'r cyd-destun y tu ôl i ddiwygiadau lles ac yn darparu trosolwg o'r holl newidiadau y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn eu cyflawni yn ystod y blynyddoedd nesaf: gov.uk/government/publications/welfare-reform-communications-toolkit
- ☐ Gall y pecyn cymorth Credyd Cynhwysol eich helpu i egluro'r newidiadau i'r budd-daliadau i mewn ac allan o waith i hawlwyr: gov.uk/universal-credit-toolkit-for-partner-organisations

## Gwybodaeth ar gyfer y bobl rydych yn eich cefnogi

- ☐ Cyfeiriwch hawlwyr at gov.uk/pip ar gyfer y wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys pryd y gallent gael ei effeithio – efallai dolen o'ch gwefan neu'ch cyhoeddiadau
- ☐ Gwiriwch eich canllawiau a chyfathrebiadau i wneud yn siŵr eu bod yn cynnig y cyngor diweddaraf, gan gynnwys budd-daliadau a gwasanaethau eraill y gallai PIP effeithio arnynt, fel tocynnau teithio a bathodynnau glas – lawrlwythwch y llawlyfr PIP
- ☐ Gall hawlwyr ffonio am help a chymorth gyda PIP ar 0345 850 3322 (ffôn testun 0345 601 6677) o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm
- ☐ Ystyriwch hefyd ddarparu gwybodaeth am grantiau Mynediad at Waith. Gall y grant hwn helpu i dalu am gymorth ymarferol fel y gall pobl sydd â chyflwr anabledd, iechyd neu iechyd meddwl wneud eu gwaith: gov.uk/mynediad-at-waith

## Ffurflenni Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)

- ☐ Peidiwch â defnyddio'r ffurflenni 'DLA 1AW Adult' a 'DLA 1W Adult'. Cofiwch fod ceisiadau newydd i PIP yn cael eu cychwyn dros y ffôn drwy ffonio 0800 917 2222 (ffôn testun 0800 917 7777). Gallai defnyddio ffurflenni DLA hen oedi cais newydd. Gallwch barhau i ddefnyddio ffurflenni DLA ar gyfer plant

ISBN: 978-1-78153-619-3 © Hawlfraint y Goron 2014. Cyhoeddwyd gan DWP. Mawrth 2017